Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Beth mae'r Senedd yn ei wneud?

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Beth mae'r Senedd yn ei wneud?**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819


Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Beth mae'r Senedd yn ei wneud? .......... 4

Llywodraeth Cymru .......... 7

Pa bwerau sydd gan y Senedd? .......... 8

Arian a threthi .......... 10

# Beth mae'r Senedd yn ei wneud?



Senedd Cymru ydy'r Senedd. **Mae'n wahanol i Lywodraeth Cymru**.



Mae'r Senedd yn cynnwys y bobl rydych chi'n pleidleisio amdanyn nhw yn Etholiadau'r Senedd.




**Mae etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2026.**



Mae'r ymgeiswyr neu'r blaid sydd â'r gyfran fwyaf o'r pleidleisiau yn dod yn Aelodau o'r Senedd.



Maen nhw’n cael eu galw yn ASau yn fyr.



Mae ASau yn cynrychioli’r bobl yn eu hardal bleidleisio. Maen nhw’n gweithredu fel y cyswllt rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.



Rôl bwysig y Senedd ydy edrych ar waith Llywodraeth Cymru.



Mae ASau yn gofyn cwestiynau i weinidogion, yn trafod polisïau a chyfreithiau Llywodraeth Cymru ac yn edrych ar y gwaith yn fanwl.



Maen nhw’n siarad am y problemau rydych chi’n eu hwynebu, ac yn gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed pan mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.




Maen nhw’n gwneud yn siŵr bod polisïau a chyfreithiau mor dda ag maen nhw’n gallu bod.



Maen nhw’n gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwario ein harian yn y ffyrdd cywir.



Mae arweinydd y blaid wleidyddol sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau mewn etholiad, fel arfer yn arwain Llywodraeth Cymru.



Mae arweinydd Llywodraeth Cymru yn cael ei galw yn Brif Weinidog.



Mae'r Prif Weinidog yn dewis tîm o ysgrifenyddion a gweinidogion i ffurfio Llywodraeth Cymru.



Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn awgrymu deddfau newydd.

# Pa bwerau sydd gan y Senedd?




Mae'r Senedd yn gwneud deddfau a pholisïau i Gymru am bethau fel:

- Gwasanaethau iechyd.
- Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
- Ysgolion a cholegau a beth sy'n cael ei addysgu.
- Trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.
- Ffyrdd a therfynau cyflymder.
- Tai.
- Ffermio a safonau da.
- Yr amgylchedd a diogelu ein planed.
- Yr iaith Gymraeg.
- Chwaraeon a diwylliant – fel y celfyddydau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd.



Mae yna rai pethau nad oes gan y Senedd  rym drostyn nhw. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU.



Er enghraifft, dydy'r Senedd ddim yn gallu gwneud deddfau neu bolisïau am:

- **Materion tramor** – fel prynu a gwerthu nwyddau o wledydd eraill a delio â materion fel rhyfel a diogelwch.

- **Amddiffyn** – fel gwneud penderfyniadau am  ble mae ein lluoedd arfog yn mynd a beth maen nhw'n ei wneud.

- **Mewnfudo** – rheolau am pwy sydd yn gallu dod i'r wlad i aros, gweithio neu fyw.

- **Cyfraith cyflogaeth** – rheolau am bethau fel tâl, absenoldeb mamolaeth, a chontractau.

# Arian a threthi



Mae'r rhan fwyaf o'r dreth rydyn ni'n ei dalu yn mynd i Lywodraeth y DU.



Yna mae Llywodraeth y DU yn penderfynu faint o arian i'w roi i Lywodraeth Cymru.



Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio sut i wario'r arian yma ar wasanaethau fel iechyd ac addysg.



Mae’r Senedd yn edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer sut maen nhw’n gwario ein harian bob blwyddyn.



Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn codi rhywfaint o arian drwy drethi Cymru.




Llywodraeth Cymru sy’n penderfynu pa drethi y dylen ni eu cael a faint y dylen nhw fod.



Mae’r Senedd yn edrych ar eu syniadau ar gyfer trethi ac mae’n gallu cytuno â nhw neu beidio.